GOCC

# CYLCHLYTHYR

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

*16ed Rhyfin*

## Croeso

***Cylchlythyr GOCC*** yw'r lle gorau i'ch cefnogi i gyflwyno GOCC. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Gydag awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i gyflwyno GOCC ... ***rydym yma i chi.***



Mae GOCC yn dod ag ystod ehangach o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion Ymarferwyr Meddygol Offthalmi (YMO) ac optegwyr dosbarthu yng Nghymru, gyda  phob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.

## Bydd cylchlythyr #16 yn canolbwyntio ar y canlynol:

### Dyfodol e-byst GIG Cymru atoch chi ac oddi wrthych – y Gweinyddwr Practis, yr Ymarferydd a'r Contractwr.

***Gall cyfathrebiadau WGOS ddod oddi wrth eich Bwrdd Iechyd; GIG Cymru yn genedlaethol; neu Lywodraeth Cymru.  O 2025 bydd pob cyfathrebiad yn cael ei anfon yn electronig trwy eich cyfeiriad e-bost Optometreg Gofal Sylfaenol GIG Cymru.***

**Beth? -** Beth fyddwch chi'n ei dderbyn:

- Bwletinau GOCC – caiff y rhain eu cyflwyno o bryd i'w gilydd ac yn rheolaidd.  Byddant yn eich hysbysu o fewnwelediadau i wasanaeth GOCC, cydymffurfiaeth GOCC, Mewnwelediadau Gwasanaeth, dolenni i gefnogaeth ac adnoddau, a llawer mwy.
- Hysbysiadau GOCC – bydd y rhain yn cynnwys diweddariadau amser-gritigol i hysbysu am effeithiau ar ddarpariaeth gwasanaeth a lle mae angen gweithredu ar frys.
- Cyfathrebiadau eraill, yn ymwneud â thâl a dilysu ôl-daliadau. verification.

**Oes rhaid i mi? -** Oes! Mae cyfrifon e-bost yn rhoi mynediad i Optometryddion/Optegwyr Dosbarthu cymunedol at amrywiaeth o offer, megis e-byst GIG Cymru (o unrhyw ddyfais, unrhyw le) a Teams (galwadau fideo / negeseuon sgwrsio) sydd ar gael trwy Microsoft Office 365. Mae cael cyfrif e-bost Optometreg Gofal Sylfaenol GIG Cymru yn hanfodol ar gyfer eich darpariaeth barhaus o GOCC gan y bydd yn eich galluogi i gydymffurfio â'ch rhwymedigaethau o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 i wneud atgyfeiriadau'n electronig lle darperir modd i wneud hynny gan y Bwrdd Iechyd.

**Pryd? -** O fis Ionawr 2025 bydd holl gyfathrebu GIG Cymru ag ymarferwyr a phractisiau yn digwydd trwy gyfrifon e-bost GIG Cymru yn unig.  Anogir pob Optometrydd, Optegydd Cyflenwi a Phractis i wneud cais ac actifadu eu cyfrifon e-bost Optometreg Gofal Sylfaenol GIG Cymru cyn gynted â phosibl.

## ? Cwestiwn Allweddol

- A oes gennyf fynediad at e-byst GIG Cymru fel rhan o gyflwyniad Microsoft Office 365 i Optometreg yng Nghymru?

- Os 'oes', cofiwch gofrestru'n rheolaidd i dderbyn y diweddariadau hynny fel Ymarferydd a/neu Gontractwr.

- Os mai 'nac oes' yw eich ateb i'r uchod a'ch bod yn Gontractwr, cysylltwch â ni ar frys (erbyn 18 Rhagfyr 2024) i gael mynediad at GIG Cymru. E-bostiwch optometreg.ict@wales.nhs.uk

- o Fel arall, os ydych yn ddechreuwr newydd yng Nghymru (o 30 Medi 2024), cysylltwch ag nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk

## Crynodeb

### Beth?

- **Os gwnaethoch danysgrifio trwy e-bost nad yw'n ymwneud â GIG Cymru, dyma Gylchlythyr olaf GOCC y byddwch yn ei dderbyn. Ni fyddwch yn derbyn cyfathrebiadau GOCC pellach yn awtomatig.**

### Pryd?

- O 1 Ionawr 2025

### Sut?

- **Sicrhewch fod gennych fynediad at gyfrif e-bost Optometreg Gofal Sylfaenol GIG Cymru a fydd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd.**

## Cymorth i chi

Optometreg Cymru yw'r sefydliad ymbarél proffesiynol ar gyfer y proffesiynau iechyd llygaid gofal sylfaenol yng Nghymru. Gallant gynnig cymorth a chyngor i chi.

**E-bost:**

Debbie.O'Sullivan@Optometrywales.com

**Mae diweddariadau blaenorol i'w gweld yn:**

Cylchlythyrau WGOS - GIG Cymru

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services